



CANOLFAN MILENIWM CYMRU  
WALES MILLENNIUM CENTRE



# ADOLYGIAD BLWYDDYN

2019 / 2020



# NI YW CANOLFAN MILENIWM CYMRU

# TANWYDD I'R DYCHYMYG

Rydyn ni'n tanio'r dychymyg drwy guradu cynyrchiadau teithiol o'r radd flaenaf, sydd wedi ennill clod y beirniaid, o theatr gerdd a chomedi i ddawns, cabaret a gŵyl ryngwladol.

Rydyn ni'n meithrin doniau newydd gyda'n cynyrchiadau ffres, pryfoclyd a phoblogaidd ein hunain, wedi'u gwreiddio yn niwylliant Cymru. Rydyn ni hefyd yn elusen sy'n cydweithio â sefydliadau, cymunedau a phobl ifanc er mwyn gwneud y celfyddydau yn hygyrch i bawb.

Rydyn ni'n tanio angerdd am y celfyddydau gyda phrofiadau dysgu sy'n newid bywydau a chyfleoedd i ddisgleirio yn llygad y byd. Bob blwyddyn, rydyn ni'n denu 1.6m+ o ymwelwyr ac yn cynhyrchu £70m ar gyfer busnesau lleol.

Llun: Gwledd gymunedol yn Glanfa o dan osodwrth Luke Jerram, Gole





# 1.6 MILIWN

## O YMWELWYR DRWY'R DRYSAU\*

# 5,300

### O DOCYNNAU WEDI'U GWERTHU AR GYFER EIN CYNRYCHIADAU EIN HUNAIN

# 421,310

### O AELODAU CYNULLEIDFA

# £15 MILIWN

### O WERTHIANNAU

# 129 O GYNYRCHIADAU

# 497 O BERFFORMIADAU GYDA THOCYN

# 6,000+

## O DOCYNNAU WEDI'U CYNIG I'R GYMUNED YN RHATACH NEU AM DDIM

# TAIR GWOBR

- **MENTOR Y FLWYDDYN YNG NGWOBRAU SGILIAU CREADIGOL A DIWYLLIANNOL COLEG CAERDYDD A'R FRO 2019: JASON CAMILLERI**
- **GWOBR ARLOESI MEWN PARTNERIAETH YNG NGWOBRAU ARLOESI PRIFYSGOL CAERDYDD: UNED ECONOMI GREADIGOL YSGOL NEWYDDIADURAETH, Y CYFRYNGAU A DIWYLLIANT PRIFYSGOL CAERDYDD MEWN CYDWEITHREDIAD Â BBC CYMRU, CYNGOR CAERDYDD A CHANOLFAN MILENIWM CYMRU**
- **GWOBR CYFLOGWR BACH Y FLWYDDYN YNG NGWOBRAU PRENTISIAETHAU QSA 2020**

\* Yn rhannol seiliedig ar amcangyfrif oherwydd nam technegol.

# PETER SWINBURN

Cadeirydd Canolfan Mileniwm Cymru



A ninnau'n ymdopi â chanlyniadau pandemig byd-eang, mae'n galonogol myfyrio ar lwyddiannau'r flwyddyn ariannol ddiwethaf (2019/2020). Mewn blwyddyn pan wnaeth Canolfan Mileniwm Cymru ei hymddangosiad cyntaf yn Asia, pan lwyfannodd gywaith arloesol rhwng artistiaid B/byddar ac artistiaid sy'n clywed, pan ymgysylltodd â bron i 21,000 o bobl ifanc a chroesawu cynulleidfaoedd i'n perfformiad ymlaciedig cyntaf yn Theatr Donald Gordon, does dim amheuaeth ein bod wedi rhoi ein gweledigaeth – Ysbrydoli'r Genedl a Chreu Argraff ar y Byd – ar waith.

Yn sgil ein hymrwymiad i greu gwaith newydd arloesol sy'n arddangos doniau Cymru, cynhyrchwyd nythaid o sioeau rhyfeddol, gan gynnwys The Beauty Parade, RED, ac addasiad llwyfan newydd sbon o'n drama hynod lwyddiannus, The Mirror Crack'd.

Gyda chymorth ein Cynhyrchydd Ymgysylltu Cymunedol ymroddedig, Gemma Hicks, rydyn ni wedi cynnal sawl gwledd gymunedol sydd wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Mae torri bara gyda channoedd o'n cymdogion yng Nghaerdydd – a llawer ohonyn nhw'n ymweld am y tro cyntaf – yn arfer rydyn ni'n gobeithio'i barhau ymhell i'r dyfodol.

Fodd bynnag, fe gawson ni newyddion trist ym mis Tachwedd 2019. Bu farw noddwr sefydlu Canolfan Mileniwm Cymru, y dyn busnes o Dde Affrica Syr Donald Gordon, yn 89 oed. Mae arnon ni ddyled aruthrol iddo ac rydyn ni'n hynod falch bod ein prif theatr eiconig wedi'i henwi ar ei ôl.

Mae meddwl am gyfraniad enfawr Syr Donald i Ganolfan Mileniwm Cymru yn fy atgoffa bod rhaid diolch, wrth gwrs, i'n cyllidwyr, rhoddwyr, partneriaid strategol a chynhyrchu, staff, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr, a hynny'n ddiffuant iawn am eu cefnogaeth hael. Heb y gefnogaeth yna, fyddai dim o'r llwyddiannau rhyfeddol yma'n bosib, felly diolch o galon iddyn nhw.

# MATHEW MILSOM

Rheolwr Gyfarwyddwr



Roedd hon yn flwyddyn nodedig i ni fel canolfan celfyddydau perfformio o'r radd flaenaf, yn gwneud gwaith arloesol sy'n arddangos y gorau o ddoniau Cymru.

Mae edrych yn ôl ar lwyddiannau'r flwyddyn yn foddhad ac yn dristwch, gan fod y pandemig wedi ein gorfodi i gau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yma. Rydyn ni'n ddyledus i Gyngor Celfyddydau Cymru ac i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth hanfodol yn ystod y cyfnod anodd yma.

Roedd uchafbwyntiau rhaglen 2019/2020 yn cynnwys Perfformiadau i'r Chwilfrydig hydref 2019, oedd yn cynnwys dros 30 o sioeau, yn ein rhaglen fwyaf amrywiol a hygyrch eto. Teithiodd ein cyd-gynhyrchiad arobryn gyda Carys Eleri, sef Lovecraft (Not the Sex Shop in Cardiff), o gwmpas Cymru benbaladr ac i Wyl Cyrion Caeredin, a chael adolygiadau gwyth.

Oddi ar y llwyfan, tyfodd ein hymrwymiad i godi dyheadau pobl ifanc o nerth i nerth, hefyd. Cynhaliwyd 736 sesiwn ar draws ein rhaglen dysgu creadigol, gan ymgysylltu â thros 20,766 o blant a phobl ifanc – ein nifer uchaf eto. Llwyddodd Radio Platfform i barhau i dyfu, gan lansio'r ail stiwdio – yn y Porth, Rhondda Cynon Taf – ym mis Gorffennaf 2019. Ac ym mis Hydref, fe gynhalion ni a Sparc Plant y Cymoedd ein hail Hac Bywyd; digwyddiad am ddim oedd yn rhoi cyfle i bobl ifanc 11-25 oed o bob rhan o'r de gwrdd â gweithwyr proffesiynol o'r diwydiannau creadigol.

Roedd hi'n hyfryd cael croesawu dros 400,000 o ddeiliaid tocynnau i berfformiadau ar ein llwyfannau. Rydyn ni'n ymrwymedig i ddarparu'r cynrychiadau teithiol gorau i bobl Cymru. Hoffwn ddiolch i'r artistiaid a'r cynhyrchwyr sy'n dod â'r sioeau yma aton ni, ac i bob un o'n staff gweithgar sy'n gwneud y profiadau'n rhai mor hudolus.



# EIN CYNRYCHIADAU

Ein gweledigaeth yw dod yn ffwrnais ar gyfer cynrychiadau, gwyliau a digwyddiadau newydd sy'n difyrru, yn ysgogi ac yn ysbrydoli cynulleidfaoedd, ac sydd â llais cryf wrth eu gwraidd.

Eleni yn fwy na'r un flwyddyn arall, fe lwyddon ni i gryfhau ein swyddogaeth fel tŷ cynhyrchu gyda chnwd newydd o gynrychiadau a wnaed yng Nghymru, i Gymru ac wedi'u hysbrydoli gan Gymru.

Rydyn ni'n cynhyrchu gwaith cyfoes sy'n hyrwyddo doniau Cymru, gan adrodd straeon difyr drwy leisiau newydd a sefydledig sy'n cynnwys y rhai heb gynrychiolaeth ddigonol, gan ddatlu Cymru yn ei holl amrywiaeth. Rydyn ni wedi cydweithio ag artistiaid B/byddar ac sy'n clywed, perfformwyr dwyieithog, awduron, cwmnïau theatr a chyfansoddwyr lleol ac artistiaid LHDTQ+ i greu mathau newydd o waith sy'n adrodd eu straeon nhw, yn eu ffordd nhw.

Mae'r rhain yn cynnwys: *Lovecraft (Not the Sex Shop in Cardiff)*: Perfformiwyd y sioe gabaret un fenyw yma, a gafodd ei chyd-gynhyrchu, ei hysgrifennu a'i pherfformio gan yr awdur a'r perfformiwr dwyieithog Carys Eleri, yng Ngŵyl Cyrion Caeredin ac aeth ar daith o gwmpas Cymru – yn Gymraeg ac yn

Saesneg – gan ddenu canmoliaeth uchel.

*The Mirror Crack'd*: Cafodd ein cyd-gynhyrchiad yn 2019 gyda Wiltshire Creative fywyd newydd ym mis Ionawr 2020. Fe gyd-gynhyrchon ni addasiad newydd sbon o nofel Agatha Christie, wedi'i hail-lunio ar gyfer cynulleidfaoedd India gan yr awdur Ayesha Menon, gyda Melly Still yn dychwelyd fel cyfarwyddwr. Fe'i perfformiwyd yng Nghanolfan Celfyddydau Perfformio Genedlaethol India ym Mumbai, gan nodi ein hymddangosiad cyntaf fel cynhyrchydd yn Asia. Aeth dros 7,500 o bobl i weld y sioe mewn 10 perfformiad.

*RED*: Yn sioe Nadolig 2019, a gyd-gynhyrchwyd gyda chwmmi *Likely Story* ar gyfer cynulleidfaoedd 7+ oed, cafodd stori gyfarwydd yr Hugaran Fach Goch ei throï'n sioe gwbl gyfoes. Roedd yn boblogaidd nid yn unig ymhlith teuluoedd ond gyda phobl greadigol a gweithwyr proffesiynol ifanc, a hefyd gyda'r beirniaid.

★★★★★ "A LITTLE GEM OF A CHRISTMAS SHOW... RED IS PURE FAMILY FUN" – WESTERN MAIL



# THE BEAUTY PARADE

**“AN UNDENIABLE ACHIEVEMENT... THE BEAUTY PARADE SHOULD GIVE THE VENUE GOOD CAUSE FOR CARRYING ON IN THIS DIRECTION.”**

**– WALES ARTS REVIEW**

Mewn cyd-gynhyrchiad gyda'r gwneuthurwr theatr arobryn Kaite O'Reilly, roedd The Beauty Parade yn adrodd stori deimladwy ysbiwyr benywaidd arwrol yr Ail Ryfel Byd. Roedd y cywaith arloesol rhwng artistiaid B/byddar ac artistiaid sy'n clywed yn ymgorffori cerddoriaeth fyw, caneuon atgofus, deialog a iaith weledol, ac roedd yn gweithio'n gynhwysol rhwng diwyllianau B/byddar a diwyllianau clywed i roi dehongliad aml-synhwyraidd o'r stori wir anhygoel yma.

Yn dilyn ymgyrch farchnata gynhwysfawr oedd yn cynnwys ein fideo rhagflas cyntaf yn iaith Arwyddion Prydain (BSL) gyda Sophie Stone, aelod o'r cast, gwelodd dros 1,400 o bobl y sioe mewn naw perfformiad yn Stiwdio Weston ym mis Mawrth 2020 – bron dwywaith cymaint â'r targed gwerthu.

★★★★★ **THE STAGE**

**“A PHENOMENAL TOUR-DE-FORCE”  
DISABILITY ARTS ONLINE**

Llun: The Beauty Parade



## ORIEL I BAWB

Fe fuon ni'n curadu celf gyhoeddus gyffrous i ysbrydoli ymwelwyr a staff fel ei gilydd – a'r cyfan am ddim. Ymhlith y rhai mwyaf trawiadol, roedd dau gerflun godidog gan yr artist Luke Jerram, oedd i'w gweld yng nghyntedd Glanfa.

Roedd Gaia yn ganolbwynt ar gyfer dathliad chwe wythnos o'r Ddaear a gynhaliwyd yn ystod gwyliau'r haf. Mae diamedr y gwaith rhyfeddol yma'n saith medr, ac mae'n cynnwys delweddau manwl gan NASA o arwyneb y Ddaear yn arnofio mewn 3D, gan roi golwg gofodwr i ymwelwyr o'n planed anhygoel.

Dros y gaeaf, ysbrydolodd Museum of the Moon yr un ymdeimlad o syfrdandod a rhyfeddod. Roedd diamedr hwn hefyd yn saith medr, ac yn cynnwys delweddau manwl gan NASA o arwyneb y lleuad, gyda phob centimedr o'r cerflun sfferig yma oedd wedi'i oleuo o'r tu mewn yn cynrychioli 5km o arwyneb y lleuad. Yn gyfeiliant iddo roedd sgôr atmosfferig gan Dan Jones, y cyfansoddwr sydd wedi ennill BAFTA.

Llun: Museum of the Moon gan Luke Jerram



# RHAGLEN I YSBRYDOLI

Unwaith eto, fe gynigiwyd rhaglen fasnachol o'r radd flaenaf yn Theatr Donald Gordon yn 2019/20, gyda chymysgedd o sioeau hir a byr yn ogystal â sioeau unnos. Croesawyd adloniant i'r llwyfan, fel Caroline Sheen yn dychwelyd aton ni yn 9 to 5 the Musical, yr YouTubewyr WillNIE a Stephen Tries, Grease, dawns gyfoes yn Pepperland Mark Morris, Romeo and Juliet Matthew Bourne, Drag Race Ru Paul, y digrifwr Lenny Henry, y fforiwr Syr Ranulph Fiennes, ailymddangosiad Max Boyce, yr eiconig Nick Cave, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a Thymhorau Haf a Hydref Opera Cenedlaethol Cymru.

Ddeng mlynedd ers ei hymweliad diwethaf, ac ar ôl hir aros, daeth Les Misérables yn ôl i'n llwyfan ar gyfer Nadolig 2019. Llwyddodd y sioe hynod boblogaidd yma i werthu y tu hwnt i'n disgwiliadau cychwynnol, ac ychwanegwyd perfformiadau er mwyn bodloni'r galw dros ei chyfnod o chwe wythnos yma. Yn y pen draw, daeth dros 80,000 o bobl o bob oedran i'w gwyllo.

Ar ôl Les Mis, daeth y clasur bythol The King and I i Ganolfan Mileniwm Cymru am y tro cyntaf. Bu'r cynhyrchiad hynod lwyddiannus yma gyda ni am bythefnos, gan lenwi 92% o'r capasiti ar y cyfan. Gan barhau â dechrau llwyddiannus 2020, daeth sioe boblogaidd SIX The Musical â chynulleidfa hollol newydd drwy'r drysau. Fe lwyddodd y cynhyrchiad egniol yma, sy'n ailddehongliad modern o fywydau chwe gwraig Harri'r VIII ar ffurf cyngerdd pop, i werthu pob tocyn ymhell cyn iddo agor. Roedd yn gymaint o lwyddiant nes bod y sioe yn gobeithio dychwelyd am rediad hirach yn 2022.

Ym mis Chwefror 2020, roedd yn amser ar gyfer Tymor Gwanwyn blynyddol Opera Cenedlaethol Cymru oedd yn cynnwys Carmen, Les vèpres siciliennes a Phriodas Figaro. Roedd hwn yn dymor arbennig o lwyddiannus i WNO, a lwyddodd i lenwi 80% o'r capasiti.

Gwelodd y flwyddyn hefyd gynnydd yn yr archebwyr tro cyntaf yn Theatr Donald Gordon, a chadarnhawyd ein statws fel canolbwynt poblogaidd ar gyfer cynulleidfaoedd Cymraeg – roedd 15% o'n harchebwyr theatr eleni yn siarad Cymraeg, sy'n fwy na chanran y siaradwyr Cymraeg ym mhoblogaeth Caerdydd.

Ac fe gafodd y rhai a ddaeth fodd i fyw – rhoddodd 97% o'r archebwyr radd gadarnhaol i'r sioe roedden nhw wedi'i gweld – ac yn achos sioe SIX sydd wedi cael cymaint o ganmoliaeth gan y beirniaid, nododd 100% o'r ymatebwyr bod eu profiadau'n dda neu'n dda iawn.





# CYMUNED

**Y cymunedau eu hunain sy'n gyrru ein gwaith cymunedol. Mae ein Cynhyrchydd Ymgysylltu Cymunedol ymroddedig yn gweithio gyda phobl ledled Cymru i ehangu ein cyrhaeddiad, i ddatblygu llais ac i gyd-greu digwyddiadau a gweithgareddau fydd yn ennyn diddordeb y gynulleidfa ehangaf bosib. Mae ganddon ni rwydwaith o 16 o lysgenhadon ac mae'r nifer yn dal i godi, gan sicrhau y bydd cymunedau wrth wraidd ein digwyddiadau yn y dyfodol.**

Eleni, cynhaliwyd tair gwledd wedi'u cynllunio a'u harwain gan gymunedau, lle daeth 580 aelod o'r gymuned i gymryd rhan, gan gynnwys gwledd Affricanaidd, gorymdaith llusernau a gwledd Diwrnod Rhyngwladol y Merched. Roedd ardal berfformio Glanfa dan ei sang gyda pherfformiadau lleol a bwyd blasus.

Y llynedd, fe sefydlwyd cynllun llysgenhadon cymunedol. I ddechrau, fe fuodd chwe llysgennad yn gweithio gyda ni i'n helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, dau ohonyn nhw dros 60 oed ac o gefndir Du, Asiaidd ac amrywiol ethnig. Ers hynny, rydyn ni wedi dyblu nifer y llysgenhadon

cymunedol sy'n gweithio gyda ni i sicrhau bod tocynnau cymunedol yn cael eu dosbarthu'n briodol ar gyfer sioeau yn y dyfodol.

Ar ben hynny, ar 1 Mawrth fe gynhaliwyd diwrnod o berfformiadau o'r enw Dy Gymru, lle bu 19 o wahanol grwpiau cymunedol a dros 2,000 o bobl yn rhannu eu gweledigaeth o'r hyn roedd Cymru'n ei olygu iddyn nhw, ar y llwyfan yn Theatr Donald Gordon, i nodi Dydd Gŵyl Dewi. O freg-ddawnsio, drymio a chanu gwerin, i gorau lleol, dawnsio Tamil a phopeth yn y canol, roedd yn ffordd fythgofiadwy i gloi blwyddyn hynod brysur.





# MEITHRIN DONIAU CYMRU

Rydyn ni'n meithrin doniau drwy ddatblygu a chefnogi artistiaid ledled Cymru. Rydwn ni'n rhoi gofod i wneuthurwyr theatr archwilio syniadau ac ymarfer, yn rhoi adborth ar sgriptiau a pherfformiadau, ac yn helpu i roi syniadau ar waith. Rydwn ni hefyd yn cysylltu artistiaid ac ymarferwyr creadigol gyda gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant, ac yn helpu i sicrhau cyllid. Mae'r gwaith yma o osod seiliau yn paratoi artistiaid i greu gwaith y gellir ei berfformio ar ein llwyfannau ni ac ymhellach i ffwrdd.

Ymhlith yr artistiaid rydwn ni'n eu cefnogi mae Carys Eleri, a ddatblygodd ei sioe gomedi gerddorol am gemeg cariad, *Lovecraft (Not the Sex Shop in Cardiff)*, gyda ni. Perfformiwyd ei sioe am y tro cyntaf yn 2018 ac ymddangosodd yn ddiweddarach yng Ngŵyl Cyrion Caeredin. Gan weithio gyda ni, datblygodd y sioe ymhellach i greu fersiwn Gymraeg, *Cer i Grafu...sori...GARU!* ac aeth y ddau gynhyrchiad ar daith o amgylch Cymru ar yr un pryd yn ddiweddarach yn 2019. Yn ystod mis Chwefror 2020, cafodd *Lovecraft (Not the Sex Shop in Cardiff)* gyfnod yn Theatr Soho Llundain gan werthu pob tocyn.

Fe fuon ni hefyd yn cefnogi'r dramodydd Jennifer Lunn i ddatblygu ei drama newydd *Es & Flo*. Rydwn ni'n falch iawn o gael ei chyd-gynhyrchu ac edrychwn ymlaen at ei llwyfannu yn 2022. Yn y ddrama newydd graff yma, mae cast benywaidd yn bwrw golwg amserol ar gymhlethdodau perthnasoedd ac yn taflu goleuni ar gariad yn ei holl ffurfiau. Enillodd y ddrama *Wobr Ysgrifennu Popcorn* yng Ngŵyl Cyrion Caeredin ym mis Awst 2020.

Cafodd ein *Swyddfa Agored* ei lansio ddiwedd 2019 fel gofod i artistiaid a gwneuthurwyr gwrdd ag aelod o'n tîm cynhyrchu. Drwy'r fenter yma, rydwn ni'n rhoi cyfle i unigolion sgwrsio am brosiectau, cael cyngor ymarferol, cynnig syniadau, a dysgu mwy am yr hyn rydwn ni'n ei wneud. Ym mis Ionawr 2020, aeth y *Swyddfa Agored* ar daith, gan ymweld â Phontio ym Mangor er mwyn cyrraedd rhagor o bobl. Cafodd y daith ei gohirio oherwydd pandemig y *Coronafeirws* ym mis Mawrth 2020, ac rydwn ni'n gobeithio y bydd yn gallu ailgychwyn yn fuan.

Llun: Carys Eleri





# CABARET

Mae Cabaret yn cynnig cyfle gwych i ni ddatblygu cynulleidfaoedd newydd a chefnogi ffurfiau ar gelf a lleisiau newydd mewn lleoliad unigryw ac agos atoch. Mae Perfformiadau i'r Chwilfrydig wedi dangos i ni bod pobl yn awyddus i weld gwaith o'r fath, a'i fod yn dod â chynulleidfaoedd i mewn i brofi rhywbeth gwahanol. Yn fwy na dim, mae'n dathlu amrywiaeth ac yn cynnig profiadau unigryw.

Yn ystod tymor hydref Perfformiadau i'r Chwilfrydig, roedd cynrychiadau'n amrywio o drag i fwrlésg. Ymhlith y perfformiadau roedd y seren ddrag Pixie Perez, actau cabaret Cymraeg gan gynnwys Stifyn Parri, 50 Shêd o Santa Clôs a Cabarela, perfformiadau LHDTQ+; Connie Orff, Lord Hicks: Sod's Law a Beast gan Krishna Isha, cerddoriaeth gan gynnwys Never the Bride, première lle gwerthwyd pob tocyn o ddrama newydd The Invisible Woman yn serennu'r actores Nicola Reynolds, a chomedi gan y ffefryn lleol Leroy Brito.

Ym mis Mai 2019, fe roeson ni gynnig ar gyfres newydd o nosweithiau o'r enw Clwb Swper Nos Sadwrn. Y nod oedd creu profiad crwn,

fforddiadwy i'r gynulleidfa, wedi'i raglennu a'i redeg gan gynhyrchwyr lleol. Mae'r nosweithiau'n cynnwys doniau lleol a rhyngwladol. Yn ogystal â chynnig gwaith mawr ei angen i berfformwyr sefydledig, mae hefyd yn cynnig llwyfan diogel ar gyfer perfformwyr newydd. Mae hyn yn cysylltu'n dda gyda'n rhaglen datblygu artistiaid.

Wrth i'r rhaglen gabaret groesawu perfformwyr o gymunedau lleol, dwyieithog ac LHDTQ+, mae'n denu cynulleidfaoedd newydd ac amrywiol i Ganolfan Mileniwm Cymru, gyda thraean yr archebwyr yn prynu am y tro cyntaf. Mae hefyd yn annog cwsmeriaid presennol ein prif theatr i ehangu eu bydolwg diwylliannol a rhoi cynnig ar waith amgen.





# CEFNOGI'R GYMRAEG

Fel y ganolfan celfyddydau perfformio genedlaethol, mae'r iaith a'r diwylliant Cymraeg wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Roedd yn anrhydedd cael cynnal Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am y trydydd tro rhwng 27 Mai a 1 Mehefin 2019. Mae Eisteddfod yr Urdd yn un o wyliau ieuencid mwyaf Ewrop, sy'n cynnig llwyfan ysbrydoledig ac unigryw i bobl ifanc berfformio, cystadlu a chael hwyl yn Gymraeg. Fe groesawon ni dros 150,000 o bobl drwy'r drysau yn ystod yr wythnos a phob rhanbarth yn y wlad yn cael eu cynrychioli. Roedd ein llwyfannau yn gartref ar gyfer cystadlaethau, seremonïau a pherfformiadau tra bod maes yr Eisteddfod yn digwydd ar garreg y drws, gyda mynediad am ddim, gan greu bwrlwm o weithgarwch ym Mae Caerdydd.

Rydyn ni'n angerddol am gynnig profiad dwyieithog o ansawdd uchel i'n holl gwsmeriaid, ymwelwyr a staff. Mae ein gweithwyr yn cael cynnig cyrsiau Cymraeg ar wahanol lefelau ac mae 47% o'n holl staff yn siarad rhywfaint o Gymraeg.

Mae galluogi artistiaid i greu naratifau newydd ac adrodd eu stori yn eu hiaith eu hunain yn hanfodol i fywyd diwylliannol Cymru ac yn greiddiol i'n gweledigaeth artistig. Daeth cynrychiadau fel Merched Caerdydd a Nos Sadwrn o Hyd gan Theatr Genedlaethol Cymru i Stiwdio Weston ym mis Ebrill, gan gyrraedd cynulleidfaoedd di-Gymraeg hefyd drwy ap Sibrwd, sy'n darparu dehongliad Saesneg mewn amser go iawn drwy ffonau a dyfeisiau. Fe gefnogon ni Carys Eleri i greu ei sioe un fenyw hynod boblogaidd 'Cer i grafu...Sori...GARU!', a fu ar daith o gwmpas Cymru, yn ogystal â darparu gofodau ac adnoddau i artistiaid Cymraeg brofi syniadau newydd.

Roedden ni'n falch iawn o gael canmoliaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg am ein darpariaeth ddigidol ddwyieithog, wrth iddo enwi ein gwefan fel enghraifft o arfer gorau am y ffordd mae'n annog pobl i ddefnyddio ochr Gymraeg y wefan. Yn dilyn y ganmoliaeth yma, fe gawson ni gyfle i gyflwyno yn eu digwyddiad chwarterol 'Cymraeg yn y Trydydd Sector' lle buon ni'n trafod ein hunaniaeth ddwyieithog gadarn.

Llun: Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Mai-Mehefin 2019





# DYSGU CREADIGOL



Mae ein tîm dysgu creadigol yn creu profiadau llawn llawenydd sy'n gwella bywydau pobl ifanc Cymru, gan eu galluogi i adrodd eu straeon a bod yn greadigol.

Rydyn ni'n canolbwyntio ar gynnig cyfleoedd i'r bobl ifanc hynny y mae profiadau bywyd niweidiol wedi effeithio fwyaf arnyn nhw, ac ers agor rydyn ni wedi cyrraedd dros 300,000 o bobl ifanc. Yn 2019-20, fe gynhalion ni 736 o sesiynau ar draws ein rhaglen dysgu creadigol, gan ymgysylltu â thros 20,766 o blant a phobl ifanc.

Mae'r canlynol ymhlith ein prosiectau ar gyfer 2019-20:

Ym mis Hydref, fe gynhalion ni a Sparc Plant y Cymoedd ein hail Hac Bywyd yn y Ffatri yn y Porth. Gyda chefnogaeth Sefydliad Paul Hamlyn, cafodd pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed o bob rhan o'r de gyfle i gwrdd â gweithwyr proffesiynol o'r diwydiannau creadigol drwy'r digwyddiad undydd rhad ac am ddim yma. Cymerodd 23 o artistiaid a sefydliadau gwahanol ran yn y digwyddiad, gan gyflwyno gweithdai a chymryd rhan mewn sesiwn rhwydweithio cyflym.

Yn Gryfach Ynghyd - mae'r bartneriaeth yma gydag elusen Plant y Cymoedd yn y Rhondda, a gynhaliwyd gyda chefnogaeth hael Sefydliad Paul Hamlyn, yn mynd o nerth i nerth. Mae'n cynnwys gweithgareddau, digwyddiadau a sesiynau blasu; o hyfforddiant darlledu radio i weithdai theatr, ac mae'n cael ei harwain gan ein grŵp llywio o bobl ifanc. Yn 2019-2020, fe wnaethon ni ymgysylltu â thros 340 o gyfranogwyr.

# RADIO PLATFFFORM

Mae ein rhaglen hyfforddi a gorsaf radio o dan arweiniad pobl ifanc yn rhoi llwyfan i'r rhai sydd rhwng 14 a 25 oed fagu hyder, dod o hyd i'w llais a mynegi eu hunain. Gweithredir yr orsaf radio gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc; popeth o gynhyrchu a chyflwyno sioeau byw i'r gwaith marchnata a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r cwrs achrededig dwyieithog, sy'n para chwe wythnos, yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth â Promo Cymru.

Cymerodd dros 100 o bobl ifanc ran yn Radio Platfform eleni, gyda 24 o gyfranogwyr yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant achrededig, 61 yn cymryd rhan mewn hyfforddiant allgymorth a 18 yn creu ac yn darlledu rhaglenni. Cafodd saith o gyfranogwyr y flwyddyn flaenorol eu cyflogi fel interniaid gyda thâl, gan hybu eu gwybodaeth dechnegol ymhellach yn ogystal â'u sgiliau bywyd a gwaith gwerthfawr. Rydyn ni'n darlledu 24 sioe yr wythnos, gyda 1,250 yn gwrando bob mis ar gyfartaledd. Ochr yn ochr â'r orsaf sydd wedi'i lleoli yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, yn 2019 fe lanswyd ein hail orsaf, yn y Ffatri yn y Porth yn Rhondda Cynon Taf. Mae gan y gorsaf oedd wrandawyr rhyngwladol rheolaidd gyda phobl yn llwytho i lawr ac yn ffrydio yn yr Unol Daleithiau, Gwlad Pwyl, Sbaen, Awstralia a Chanada, i enwi dim ond rhai.

**"NID RADIO A DIM BYD ARALL  
YW RADIO PLATFFFORM; EI  
BWRPAS YW DATBLYGU POBL  
IFANC A RHOI CYFLEOEDD  
A SGILIAU IDDYN NHW  
Y BYDDEN NHW'N CAEL  
TRAFFERTH EU CAEL YN  
UNMAN ARALL."  
BEN, INTERN GYDA  
RADIO PLATFFFORM**



# GOLEUO BYWYDAU

Mae Sing Proud Cymru, ein côr ar gyfer y gymuned sydd â phrofiad o ofal, yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth â Llaisiau o Ofal Cymru. Perfformiodd Sing Proud Cymru yn Glanfa ym mis Rhagfyr 2019 fel rhan o orymdaith y llusernau, ac ar 14 Rhagfyr fel rhan o'n perfformiadau cymunedol. Ym mis Chwefror 2020, agorodd y côr ddigwyddiad Proud to be Me yn Stadiwm Pêl-droed Dinas Caerdydd, gan ganu i dros 200 o bobl, er mwyn datlu llwyddiannau pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ledled Cymru.

Yn ogystal, fe gynhalion ni weithdy ar gyfer aelodau newydd yn y digwyddiad, a roddodd gyfle i fwy o bobl ifanc brofi llawenydd canu. Yn dilyn ymlaen o hynny, bu'r côr ar ei lwyfan mwyaf eto, gan ganu fel rhan o ddatliad cymunedol Dy Gymru ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi ar 1 Mawrth yn Theatr Donald Gordon.

Eleni hefyd, fe fuon ni'n gweithio gyda'r cwmni addysg ddigidol Aspire 2Be i greu ffilm fer yn hyrwyddo ein rhaglen dysgu creadigol arloesol, ar gyfer prosiect o'r enw Direction

2020 iBroadcast Canolfan Mileniwm Cymru. Bu 25 o ddisgyblion 12-15 oed yn ffilmio ac yn golygu pedair ffilm fer, gan ddatblygu eu sgiliau darlledu, digidol a phersonol.

Cafodd pedair ffilm fer newydd sbon a wnaed gan ddisgyblion o bedair ysgol yn y de-ddwyrain eu dangos mewn digwyddiad unigryw yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ym mis Tachwedd, pob un yn canolbwyntio ar gangen wahanol o'r rhaglen dysgu creadigol:

Ysgol Plasmawr – Radio Platfform

Uned Awtistiaeth Ysgol Uwchradd Llanisien – Platfform Perfformio a Sing Proud Cymru

Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd – Rawffest

Ysgol Uwchradd Gymunedol y Porth – Yn Gryfach Ynghyd

Cywaith rhwng Canolfan Mileniwm Cymru, Aspire 2Be a Sean Holley Media oedd prosiect addysg Direction 2020 iBroadcast.

**“MAE GORFFEN FY MHRENTISIAETH WEDI FY NGALLUOGI I GYCHWYN FY NGHWMNI FY HUNAN FEL TECHNEGydd AC WEDI RHOI LLWYTH O BROFIADAU NEWYDD I FI” JAMIE LINE**

# PRENTISIAETHAU TECHNEGOL



Oherwydd maint ein rhaglen fasnachol, rydyn ni'n gallu rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu sgiliau cynhyrchu technegol a'u paratoi ar gyfer eu swydd gyntaf yn y diwydiant theatr neu ddigwyddiadau byw. Mae graddedigion yn cael prentisiaeth Lefel 3 wedi'i hachredu gan Goleg Caerdydd a'r Fro a Gwobr Efydd gan Gymdeithas Technegwyr Theatr Prydain. Yn gynnar yn 2020, roedd ein cynllun prentisiaethau'n mynd o nerth i nerth, ac ym mis Mawrth cafodd hyn ei gydnabod pan ddyfarnwyd Gwobr Cyflogwr y Flwyddyn i ni yng Ngwobrau Prentisiaethau 2020 y Gynghrair Sgiliau Ansawdd.

**“RYDW I WEDI CAEL MODD I FYW FEL PRENTIS GYDA CHANOLFAN MILENIWM CYMRU. MAE WEDI BOD YN YMARFEROL IAWN, A DW I'N CREDU BOD HYNNY'N Ffordd WYCH O DDYSGU” LEWIS MORGAN**







# CELFYDDYDAU I BAWB

Mae ein rhaglen hygyrch yn creu cyfleoedd i bobl o bob cefndir brofi a mwynhau theatr ac adloniant byw. Rydyn ni'n falch o allu cynnig perfformiadau ymlaciedig a gyda chymorth pan allwn ni, gan gynnwys sioeau wedi'u dehongli drwy BSL, gyda sain ddisgrifiad a gyda chapsiynau. Rydyn ni hefyd yn cynnig ystod o wahanol fentrau cymunedol i sicrhau bod cymaint â phosib o bobl yn mwynhau ein rhaglen a'r adeilad ei hunan. Mae perfformiadau ymlaciedig wedi'u cynllunio'n arbennig ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion a allai fod ag anableddau, anghenion cymorth ychwanegol a'r rhai ar y sbectrwm awtistig. Rydyn ni'n gwneud nifer o addasiadau synhwyrdd gan gynnwys lefelau sain is, golau mwy disglair ac amgylchedd llai ffurfiol fel bod y gynulleidfa'n gallu symud o gwmpas yn rhydd yn ystod y perfformiad a gwneud faint fynnan nhw o sŵn. Yn ystod 2019, fe gyflwynon ni berfformiad ymlaciedig o Madagascar DreamWorks. Daeth 1,012 o oedolion a phlant i'r perfformiad, gyda 39% yn dod i berfformiad theatr byw am y tro cyntaf. Roedd ein prif gynhyrchiad mewnol eleni, The Beauty Parade, yn gyd-gynhyrchiad rhyngddon ni a'r gwneuthurwr theatr arloesol Kaite O'Reilly. Yn y cywaith unigryw yma rhwng artistiaid B/byddar ac artistiaid sy'n clywed, oedd yn ymgorffori iaith weledol, deialog a cherddoriaeth fyw, roedden ni'n gweithio'n gynhwysol rhwng diwylliannau B/byddar a diwylliannau clywed. Ar gyfer

y cynhyrchiad yma, fe greon ni ein fideo rhagflas cyntaf mewn BSL gyda'r perfformiwr a'r arbenigwr iaith weledol, Sophie Stone. Gwelwyd defnydd da hefyd o gynlluniau cymunedol Tempo a Tickets for Troops. Rydyn ni'n aelod balch o gynllun Hynt, y cynllun mynediad cenedlaethol sy'n gweithio gyda rhwydwaith o theatrau a chanolfannau celfyddydol ledled Cymru. Fel aelod o'r rhwydwaith, rydyn ni'n cynnig tocyn am ddim i ddeiliaid cerdyn Hynt ar gyfer eu cydymaith, eu gofalwr neu eu cynorthwydd personol. Talodd y cynllun am 6,439 o docynnau i gyd yn ystod 2019-20. Rydyn ni'n gweithio'n galed i sicrhau bod ein tocynnau'n fforddiadwy neu'n rhad ac am ddim i'r rhai sydd fwyaf o angen hynny. Yn ystod 2019-20, fe roeson ni docynnau am ddim neu am bris gostyngol i 2,977 o unigolion a grwpiau cymunedol, a daeth 4,524 o blant ysgol ac athrawon i weld sioe ar un o'n llwyfannau gyda thocyn am bris gostyngol. Rydyn ni'n sicrhau bod y gymuned leol yn defnyddio'r adeilad yn y ffordd sydd o fwyaf o gymorth iddyn nhw – gan roi ystafelloedd am ddim a chroesawu fforymau a dathliadau fel Diwali. Yn ystod gwyliau'r ysgol, rydyn ni'n creu prosiectau celf uchelgeisiol graddfa fawr, sy'n aml yn ymateb i gelf gyhoeddus sydd i'w gweld yn yr adeilad, gan wahodd plant ac oedolion i gymryd rhan. Dysgwch ragor am ein rhaglen hygyrchedd: [www.wmc.org.uk/hygyrchedd](http://www.wmc.org.uk/hygyrchedd)

**"MAE'N BRAF TEIMLO EICH BOD CHI MEWN AMGYLCHEDD LLE  
GALL PAWB WNEUD EU PETH EU HUNAIN – RYDYCH CHI'N GALLU  
YMLACIO HEFYD, YN OGYSTAL Â'CH PLENTYN." ADBORTH GAN  
RIANT YM MHERFFORMIAD YMLACIEDIG MADAGASCAR**



**RYDYN NI'N HYNOD FALCH BOD EIN CAMPWS 7.5 ERW YN GARTREF I WYTH SEFYDLIAD DIWYLLIANNOL ARALL; POB UN YN CYFRANNU'N FAWR AT EFFAITH ARTISTIG, HYGyrCHEDD A BYWIOGRWYDD YR ADEILAD. CYFLOGIR DROS 1,000 O BOBL AR EIN SAFLE AR DRAWS YR HOLL SEFYDLIADAU.**

# EIN CAMPWS DIWYLLIANNOL



Mae **OPERA CENEDLAETHOL CYMRU** yn llwyfannu opera graddfa fawr, cyngherddau a gwaith allgymorth ledled Cymru ac mewn dinasoedd mawr yn Lloegr ac yn rhyngwladol. Maent yn darparu profiadau ysbrydoledig i bobl o bob oedran a chefnidir yn ein cymunedau, yn meithrin doniau operatig ifanc ac yn dangos i genedlaethau'r dyfodol bod opera'n ffurf ar gelf sy'n werth chweil, yn berthnasol ac yn addas i bawb.



**LLENYDDIAETH CYMRU** yw'r cwmni cenedlaethol ar gyfer datblygu llenyddiaeth. Ei weledigaeth yw Cymru lle mae llenyddiaeth yn grymuso, yn gwella ac yn bywiogi bywydau, ac mae'n gweithio i ysbrydoli cymunedau, datblygu awduron a dathlu diwylliant llenyddol Cymru. Mae Llenyddiaeth Cymru yn gweithio yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ddwyieithog ledled Cymru.



Mae **HIJINX** yn un o brif gwmnïau theatr gynhwysol Ewrop. Mae'n creu perfformiadau rhagorol gydag artistiaid ag anableddau dysgu a/neu artistiaid awtistig ar y llwyfan ac ar y sgrin, i Gymru ac i'r byd.



Mudiad ieuentid gwirfoddol cenedlaethol yw **URDD GOBATH CYMRU**, sydd â thros 55,000 o aelodau rhwng wyth a 25 oed. Maen nhw'n darparu ystod o brofiadau i blant a phobl ifanc Cymru gan gynnwys cyfleoedd diwyllianol, preswyl a chwaraeon, a'r cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg.



Cenhadaeth **TŶ CERDD** yw hyrwyddo a dathlu cerddoriaeth Cymru – ac mae hynny'n golygu unrhyw gerddoriaeth sy'n cael ei chreu yng Nghymru. Maent yn gweithio gyda phroffesiynolion ac eraill, crewyr cerddoriaeth a pherfformwyr, i ddod â cherddoriaeth Cymru i gynulleidfaoedd gartref a thramor.



Mae **CWMNI DAWNS CENEDLAETHOL CYMRU** yn creu dawns gyda phob math o bobl ym mhob math o lefydd. Drwy arloesi a dychmygu, maen nhw'n ehangu sbectrwm yr hyn all dawns fod fel y gall cynulleidfaoedd greu, gwyllo, cymryd rhan a dysgu am ddawns yng Nghymru ac ar draws y byd.



**CERDDORFA GENEDLAETHOL GYMREIG Y BBC** Ers dros 90 mlynedd, mae Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn chwarae rhan annatod yn nhirwedd diwyllianol Cymru, gyda'i rôl ddeuol unigryw fel cerddorfa ddarlledu a cherddorfa symffoni genedlaethol.



Elusen arloesol yw **TOUCH TRUST** sy'n darparu sesiynau symudiad ac amsynhwyrdd cynhwysol a chreadigol i oedolion a phlant sydd ag amrywiaeth o anghenion amsynhwyrdd, anableddau dysgu ac anhwylderau yn y sbectrwm awtistig.



# HELP LLAW

Erbyn hyn, mae gan ein cynllun gwirfoddolwyr, a lansiwyd yn 2017, dros 250 o wirfoddolwyr ymroddedig a diwyd. Maen nhw'n rhan amhrisiadwy o'n gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol.

Yn ogystal, mae ganddon ni ddwy rôl wirfoddol newydd; un yn y tîm datblygu, yn cefnogi'r tîm aelodaeth, a'r llall yn gweithio gyda'r tîm cymunedol, yn gweithredu fel llysgenhadon i godi ymwybyddiaeth o'n cynllun tocynnau cymunedol.

Roedd yr arolwg diweddaraf o'r gwirfoddolwyr, oedd yn gofyn beth roedden nhw'n ei gael o'u gwaith gyda ni, yn adrodd cyfrolau:

*"Magu hyder a'r gallu i gyfathrebu, sy'n arwain at lwyddiant o ran gallu cwrdd â phobl newydd (gwirfoddolwyr eraill), sydd yn ei dro wedi gwneud i fi deimlo'n rhan o dîm."*  
Gwirfoddolwr, 21-24 oed

*"Gweithio gydag ystod amrywiol o bobl sydd â'r un nodau. Clywed straeon ynghylch pam eu bod nhw wedi gwirfoddoli... p'un ai i gael profiad i hybu eu gyrfa, oherwydd unigrwydd / ymddeol / colli eu swydd."*  
Gwirfoddolwr, 45-49 oed

Gwirfoddolwch gyda ni:  
[www.wmc.org.uk/gwirfoddoli](http://www.wmc.org.uk/gwirfoddoli)



# DIOLCH

Yn ystod 2019-20, fe gawsom ni grant flynyddol o £3.6m gan Gyngor Celfyddydau Cymru er mwyn cynnal a rhedeg ein hadeilad eiconig. Fel elusen rydyn ni'n ail-fuddsoddi'r elw a wnawn drwy werthu tocynnau a'n gweithgareddau masnachol fel gwerthu bwyd a diod a nwyddau i helpu ariannu ein gwaith gyda chymunedau, pobl ifanc a phobl greadigol ledled Cymru. Fodd bynnag, ni fyddai'n bosib i ni barhau'r rhaglenni hyn heb y gefnogaeth anhygoel rydyn ni'n ei derbyn gan ein haelodau, rhoddwyr unigol, ymddiriedolaethau, sefydliadau a'n noddwyr corfforaethol.

Yn 2019-2020, fe lwyddon ni i fuddsoddi £381,000 i wneud gwaith artistig newydd yng Nghymru a £656,000 yn ein rhaglenni dysgu a chymunedol.

Diolch i chi am ein cefnogi ni a'n gweledigaeth o Ysbrydoli'r Genedl a Chreu Argraff ar y Byd.

Os hoffech chi ein cefnogi ni, gofynnwn i chi ystyried rhoi rhodd, ymuno ag un o'n cynlluniau aelodaeth neu wirfoddoli.

[www.wmc.org.uk/ymuno-a-rhoi](http://www.wmc.org.uk/ymuno-a-rhoi)





# DIOLCH I'N CEFNOGWYR

## PRIF BARTNER



## PARTNER CYSWLLT



## SEFYDLIADAU PARTNER



## CEFNOGWYR CORFFORAETHOL

ABP  
Arup  
Bowen Eldridge  
Capital Apartments  
Clear Channel  
CPS  
Group Giovanni's

Quantum Advisory  
Sony UK Technology Centre  
Spectrum  
SubZero Icecream  
Thomas Carrol  
Western Power

## NODDWR SEFYDLU

Syr Donald Gordon

## LLYWYDD OES

Yr Arglwydd Rowe-Beddoe DL

## CYLCH Y CADEIRYDD

Dr Carol Bell  
Philip Carne  
Y Fonesig Mary Clancy  
Bob a Lindsay Clark  
Syr David Davies  
Y Fonesig Vivien Duffield DBE  
Diane Briere de l'Isle-Engelhardt OBE  
Henry Engelhardt CBE  
Dyfrig a Heather John  
Alan a Maggie Peterson  
Syr David Prosser  
Yr Arglwydd a'r Arglwyddes Rowe-Beddoe  
Mr David Stevens CBE a  
Mrs Heather Stevens CBE  
Mr Peter a Mrs Janet Swinburn  
Y Teulu Turner

## YMDDIRIEDOLAETHAU A SEFYDLIADAU

Sefydliad Andrew Lloyd Webber  
Anthem Cronfa Gerdd Cymru  
Sefydliad y Teulu Ashley  
CGGC  
Elusen Clive a Sylvia Richards  
Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol  
CWVYS  
Cyngor Celfyddydau Cymru  
Sefydliad Garfield Weston  
Ymddiriedolaeth Elusennol Gibbs  
Ymddiriedolaeth Ieuencid Heddlu De Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Sefydliad Mackintosh  
Ymddiriedolaeth Elusennol Mary Homfray  
Sefydliad Moondance  
Sefydliad Paul Hamlyn  
Persimmon Homes  
Sefydliad Rayne  
Ymddiriedolaeth Elusennol Simon Gibson  
Ymddiriedolaeth Thistle  
Tŷ Cerdd  
Sefydliad Waterloo  
Sefydliad Wolfson

## CEFNOGAETH ARBENNIG

David Morgan  
David Seligman OBE ac er cof am  
Philippa Seligman  
Peter a Babs Thomas

## RHES Y CYNHYRCHWYR

Stage Entertainment

## AELODAU PARTNER AWEN

Raj Kumar Aggarwal OBE, DL  
Ms Ayesha Al-Sabah  
Mr Geraint Anderson  
Mrs Diana Andrews  
Dean Barnard  
Mary a David Beynon  
Mrs Jacqueline Bird  
Rosina Bridgeman  
Mr Robert Cross  
Mrs Janet Davies  
Mr Christian Du Cann  
Mr P Ellis a Mrs V Wood  
Sigi Evans  
Russell Harris C.F. a Mrs Nicola Harris  
Mr a Mrs Granville a Sheila John  
Mr a Mrs William R Jones  
Mr Hopkin Joseph  
Mrs Francesca Kitchen  
Dr Phillip Lane  
Yr Athro Michael Levi  
Dr a Mrs Richard Logan  
Mr a Mrs Michael McGrane  
David Noble a Helen Such  
Dr M L Nussbaum  
Georgina a Len Phillips  
Julienne Damaris Rowlands  
Mr David Stevens CBE a Mrs Heather Stevens  
CBE  
Claire a Simon Wyatt  
Un dienw

Diolch hefyd i'n haelodau Partner, Ffrind+ a  
Ffrind ac i roddwyr eraill am eu cefnogaeth.